OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 No. 1285

Rheoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco (Arddangos) (Cymru) 2012

Arddangos o ganlyniad i arddangosiad sy'n destun cais

4.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo arddangosiad sy'n destun cais(**1**) yn cael ei wneud i unigolyn ("A") sy'n 18 oed neu drosodd.

(2) Ni chyflawnir unrhyw dramgwydd o dan adran 7A(1) o'r Ddeddf (gwaharddiad ar arddangosiadau tybaco) drwy arddangos cynhyrchion tybaco mewn uned storio, i unigolion ac eithrio A—

(a) os yw'r arddangosiad—

(i) o ganlyniad i'r arddangosiad sy'n destun cais yn unig, a

(ii) yn parhau am gyfnod nad yw'n hwy na'r amser y mae ei angen i dynnu'r cynnyrch sy'n destun cais o'r uned storio; a

(b) os nad yw arwynebedd yr uned storio a arddangosir yn fwy nag 1.5 metr sgwâr.

(3) Ni chyflawnir unrhyw dramgwydd o dan adran 7A(1) o'r Ddeddf (gwaharddiad ar arddangosiadau tybaco) drwy arddangos cynhyrchion tybaco ac eithrio mewn uned storio, i unigolion ac eithrio A, os yw'r arddangosiad—

(a) o ganlyniad i'r arddangosiad sy'n destun cais yn unig, a

(b) yn parhau am gyfnod nad yw'n hwy na'r arddangosiad sy'n destun cais.

(4) Yn y rheoliad hwn, ystyr "y cynnyrch sy'n destun cais" ("*the requested product*") yw'r cynnyrch y gofynnodd A i'w brynu neu i gael gwybodaeth amdano.

(**1**) *Gweler* adran 7(B)8 o'r Ddeddf i gael y diffiniad o "requested display".